# Y CYNGOR 16/07/09

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd W Tudor Owen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Huw Hughes, Louise Hughes, O P Huws, Aeron M Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, J. R. Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, W Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Lewis (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Perfformiad a Chraffu), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Rhun ap Gareth (Cyfreithiwr) Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Gruffydd Wyn Morris, (Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio), Hywel Thomas (Rheolwr Cynllunio Arfon), Nia Davies (Rheolwr Polisi a Pherfformiad (Cynllunio & Thrafnidiaeth)) , ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Bob Anderson, Anwen Davies, Huw Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Simon Glyn, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, Sylvia Humphreys, Dyfrig Wynn Jones, Dewi Llewelyn, Llinos Merks, Siôn Roberts a Trevor Roberts

## 1 GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Evie Morgan Jones

## 2 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Mai 2009 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(i) Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn arweiniol gan y Swyddog Monitro.

Eglurwyd bod eitem gerbron y Cyngor yn ymwneud â mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Unedol. Yr unig benderfyniad i'r Cyngor ei wneud oedd mabwysiadu'r CDU neu beidio. Eglurodd nad oedd cyfle i drafod dynodiad safleoedd unigol, gan fod y broses o ymdrin â gwrthwynebiadau bellach wedi dod i ben.

Gan hynny, roedd yn cynghori nad oedd rhaid i aelodau ddatgan buddiant yn ymwneud â safleoedd unigol.

(ii) Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ddiddordeb ym mhob eitem yn gysylltiedig â thai'r Cyngor a Gwasanaeth Cymdeithasol oherwydd ei fod yn denant i'r Cyngor a bod ei wraig yn derbyn gofal.

Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu.

**4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Anfonwyd dymuniadau gorau at y Prif Gwnstabl, Richard Brunstrom ar ei ymddeoliad y mis hwn

(b) Llongyfarchwyd y Cynghorydd Evie Morgan Jones a fydd yn cael ei ddyrchafu i'r wisg wen yn Eisteddfod Meirion a'r Cyffiniau eleni

Yn ogystal, llongyfarchwyd y cyn Gynghorydd ar y cyn Gyngor Sir Gwynedd, John Isgoed Williams ar gael yr MBE yn rhestr anrhydeddau pen-blwydd y Frenhines yn ddiweddar, ac a fydd hefyd yn cael y wisg werdd yn Eisteddfod Meirion a'r Cyffiniau eleni.

Llongyfarchwyd pawb arall o Wynedd oedd wedi eu hanrhydeddu gan y frenhines a'r Eisteddfod eleni.

Hefyd llongyfarchwyd myfyrwyr o'r sir oedd wedi graddio'r flwyddyn hon.

(ch) Atgoffwyd aelodau bod modd archebu llun o'r Cyngor a dynnwyd ar 7 Mai, trwy gysylltu gyda Siân Ellis Williams, Swyddog Dinesig.

(d) Cyfeiriwyd at wahoddiad gan y Prif Weithredwr i aelodau drafod gwerthoedd y Cyngor mewn sesiwn byr ar ôl cyfarfod y Cyngor, ac anogwyd aelodau i bresenoli a chyfrannu i'r drafodaeth.

(dd) Cyhoeddwyd, gyda balchder bod Gwynedd wedi ennill statws Sir Masnach Deg.

Cyflwynwyd gan y Cynghorydd R H Wyn Williams ar ran y Grŵp Masnach Deg dystysgrif Statws Sir Masnach Deg Gwynedd ynghyd â basged o nwyddau Masnach Deg i Gadeirydd y Cyngor.

Diolchwyd i Grŵp Masnach Deg Gwynedd, grwpiau Masnach Deg y sir, a swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth i hybu'r gwaith ymlaen.

Diolchwyd hefyd i Adran Addysg y Cyngor am eu gwaith ardderchog i godi ymwybyddiaeth ysgolion y sir i Fasnach Deg a llongyfarchwyd Ysgol Llanllechid ar ennill statws Ysgol Masnach Deg.

(e) Cyfeiriwyd gyda thristwch at salwch diweddar John Hartson, y peldroediwr enwog a chytunwyd i anfon dymuniadau gorau ato.

**5 CWESTIYNAU**

**(i) Cwestiwn gan y Cynghorydd Gwilym Euros Roberts**

"Ydi'r Cyngor yn hapus gyda'r berthynas rhwng y Trydydd Sector a'r Sector Gyhoeddus yng Ngwynedd , hynny yw , ydi hon yn berthynas sydd wedi ei selio ar yr egwyddor o BARTNERIAETH?"

**Ateb gan Arweinydd y Cyngor**

“Diolch am y cwestiwn

Mae perthynas y Sector Gyhoeddus a'r Trydydd Sector yn un amrywiol ac amlochrog gyda chysylltiadau gwahanol rhwng degau o fudiadau gwirfoddol gydag amryw o gyrff cyhoeddus. Mae natur y berthynas hefyd yn amrywio gyda rhai mudiadau er enghraifft yn gweithredu fel llefarwyr ar ran defnyddwyr (yn grwpiau ac unigolion) ac eraill yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol, gyda rhai o'r gwasanaethau hynny wedi eu comisiynu gan gyrff cyhoeddus. Gallwch ddychmygu felly ei fod yn anodd rhoi ateb diamod dros y darlun llawn o'r sectorau.

Fodd bynnag, mae nifer o bethau yn eu lle i geisio sicrhau bod y bartneriaeth yn un iach, agored a chadarnhaol:-

1. Ceisir sicrhau cynrychiolaeth addas o'r Trydydd Sector ar bob partneriaeth bwysig o fewn y sir
2. O ran perthynas y Cyngor a'r Sector, mae compact yn ei le i gynnig arweiniad i berthynas y Cyngor a'r Sector. Mae'r compact, sydd yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd gan y Cyngor a chynrychiolwyr o'r sector, yn nodi cyfres o bethau gwahanol y bydd y Cyngor a'r Sector yn anelu tuag atynt ym meysydd cyfathrebu, ymgynghori ac adnoddau.
3. Mae'r Grŵp Cyswllt rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector yn un o brif bartneriaethau'r sir a rhan o rôl y Grŵp hwnnw yw monitro ac adolygu gweithrediad y compact
4. Er gwybodaeth hefyd, mae gennym bartneriaeth anffurfiol effeithiol iawn efo'r Trydydd Sector yn y maes Craffu lle rydym wedi cydweithio gyda Mantell Gwynedd i sefydlu pwll o arbenigwyr o'r sector sydd ar gael i gefnogi gwaith Craffu'r Cyngor - datblygiad sydd yn gwbl arloesol yng Nghymru.

Felly, oherwydd cymhlethdod y berthynas, mae'n anodd rhoi ateb pendant a diamod am natur y berthynas ar draws y cynfas cyfan ond, mae ymrwymiad clir, yng ngeiriau'r compact drafft newydd, bod y Cyngor a'r Trydydd Sector yn "gweithio gyda’n gilydd i feithrin partneriaeth sydd wedi’i seilio ar egwyddorion gonestrwydd, tryloywder, ymddiriedaeth a pharch at naill ar llall."

**Cwestiwn Atodol**

“Diolch i’r Arweinydd am ei ateb.

Onid yw’r Trydydd Sector, gyda’i brofiad o fyw o’r llaw i’r gennau, ac wynebu ansicrwydd ariannol o flwyddyn i flwyddyn, mewn sefyllfa i roddi mewnbwn adeiladol a chynorthwyo'r Cyngor yn y broses o adnabod arbedion?”

**Ateb**

“Ydy, ac mewn gwirionedd mae’n rhan o’n trafodaethau wrth drafod ein gwaith, nid yn unig ym maes arbedion ond ar draws gweithgareddau’r Cyngor, sef, sut allwn ni gryfhau rôl y trydydd sector a sut allwn ni sicrhau mewnbwn y trydydd sector. Yn sicr byddwn yn croesawu hynny ym maes arbedion, ac rwyf eisoes wedi crybwyll lle credaf y gallwn uchafu’r bartneriaeth er mwyn creu rhai o’r arbedion. Byddaf yn sicrhau ein bod yn rhoddi sylw priodol iddo yn ein gwaith yn y dyfodol”

**(ii) Cwestiwn gan y Cynghorydd Aeron Jones**

"Yn dilyn llun o gyn cynghorydd yn parcio mewn lle anabl, er nad oedd yn anabl, a fedrai'r adran gadarnhau os rhoddwyd caniatâd i barcio yno?"

**Ateb gan y Cynghorydd J R Jones, Uwch Arweinydd Adnoddau (yn absenoldeb y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Arweinydd Gofal Cwsmer)**

"Tan yr wythnos diwethaf (9 Gorffennaf) doedd yna ddim arwydd anabl ar bob llecyn parcio, a bu trefniant anffurfiol i aelodau a staff gael parcio yma tra'n ymweld â'r swyddfeydd. Fodd bynnag, rydym wrthi yn cryfhau ein trefniadau, a bellach mae arwydd anabl ar bob llecyn a byddwn yn monitro'r defnydd ohonynt."

**Cwestiwn Atodol**

"Diolch i''r Uwch Arweinydd am ei ateb.

Mae'r ateb yn datgan bod trefniant anffurfiol i aelodau a staff gael parcio yna. Nid oedd yr unigolyn a barciodd ei gar, yn aelod o'r Cyngor hwn, nac yn staff, ac yn waeth nid oedd chwaith yn anabl. Felly gofynnaf i'r Cyngor gysylltu gyda'r unigolyn i'w rybuddio na ddylai barcio yn y lle hwn byth eto"

**Ateb**

"Credaf fod yr amser wedi dod i dynnu llinell o dan y mater hwn.

Dwi'n siŵr fod yr unigolyn yn llawn ymwybodol o'r sefyllfa, yn sgil yr holl sylw sydd wedi ei roddi i'r mater yn y wasg ayb.

Fodd bynnag gallaf sicrhau'r aelod y byddwn yn cysylltu gyda staff ac aelodau i'w hysbysu o'r cyfyngiadau mewn perthynas â'r llefydd parcio anabl"

**6 PROTOCOL CYSWLLT AELOD-SWYDDOG**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar ddiwygiadau i'r Protocol Aelod-Swydd a threfn ar gyfer ymdrin â honiadau o dorri'r protocol.

Adroddwyd bod gan y Cyngor brotocol cyswllt aelod-swyddog yn ei le er mwyn hybu cydweithrediad da rhwng aelod-swyddog, a dealltwriaeth o rôl y naill a'r llall.

Er bod y protocol yn ffurfio rhan o gyfansoddiad y Cyngor, nid oedd yn rhan o'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau na swyddogion. Pe byddai swyddog yn gweithredu'n groes i'r protocol, gellid ymdrin â'r mater o dan drefniadau disgyblu'r Cyngor. Fodd bynnag nid oedd trefn ar gyfer ymdrin ag aelod sy'n torri'r protocol.

Mae Pwyllgor Safonau'r Cyngor sydd â'r swyddogaeth o hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel wedi rhoddi sylw i'r protocol, ac wedi argymell diwygiadau iddo ynghyd â chyflwyno cyfundrefn leol ar gyfer ymdrin â honiadau o dorri'r protocol. Bydd mabwysiadu'r drefn yn rhoddi awdurdod i'r Pwyllgor Safonau roddi cerydd i aelod mewn achosion teilwng.

Nododd yr Arweinydd bod y protocol a'r trefniadau wedi derbyn sylw manwl gan y Gweithgor Gwasanaethau Aelodau a'r Grŵp Busnes, ac anogodd yr holl aelodau i gefnogi a glynu wrth y protocol.

Syrthiodd gwelliant i beidio mabwysiadu'r protocol a chyfeirio'r mater i'r Prif Bwyllgor Craffu am sylw ehangach.

**PENDERFYNWYD**

**(I) Mabwysiadu'r diwygiadau i'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog**

**(ii) Mabwysiadu'r drefn leol ar gyfer ymdrin â honiadau fod aelod wedi torri'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog.**

## 10 CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio, er mwyn i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Unedol fel y cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.

Darparwyd gwybodaeth ynglŷn â chefndir y cynllun, y broses o fabwysiadu a statws y CDU.

Adroddwyd gan Uwch Arweinydd Amgylchedd bod y broses o baratoi'r CDU wedi golygu cymryd sawl cam statudol ers i'r fersiwn cyntaf ohono gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 2002. Nodwyd bod y fersiwn derfynol o'r CDU wedi ei lunio ar ôl cyfnodau ymgynghori cyhoeddus, derbyn barn Arolygydd Annibynnol yr Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol ac ar ôl iddo gael ei graffu gan sawl pwyllgor.

Eglurwyd bod y Cyngor yn dal i dderbyn sylwadau am statws ambell safle yn y CDU boed rai sydd am weld darn tir yn cael ei gynnwys neu rai sydd am weld tir yn cael ei eithrio, ond mae'r cyfnod lle gellir cofrestru sylwadau fel rhai ffurfiol wedi mynd heibio.

Penderfynodd Bwrdd y Cyngor ym mis Ebrill ei bod hi'n briodol i gymryd y cam olaf ffurfiol i fabwysiadu'r CDU, a chyhoeddwyd Rhybudd Statudol o fwriad y Cyngor i fabwysiadu'r CDU yn y papurau lleol ym mis Mehefin.

Gofynnwyd i'r Cyngor gadarnhau penderfyniad y Bwrdd, a bod y camau statudol priodol yn cael eu cymryd wedi hynny fel y gellir cael un cynllun datblygu cyfredol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â hawl gwyro'r polisi o bryd i'w gilydd, eglurodd y Pennaeth Adran Rheoleiddio bod hawl mynd yn groes i'r polisi o dan amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, pwysleisiodd bod rhaid cael tystiolaeth a chyfiawnhad cryf wedi eu sylfaenu ar resymau cynllunio cadarn.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Mabwysiadu'n ffurfiol Cynllun Datblygu Unedol ar ei ffurf Diwygiadau Arfaethedig a Diwygiadau Arfaethedig Pellach yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol;**

**(ii) Rhoi'r hawl i Bennaeth yr Adran Rheoleiddio i gymryd y camau statudol priodol sy'n gysylltiedig â mabwysiadu cynllun datblygu;**

**(iii) Rhoi'r hawl i Bennaeth yr Adran Rheoleiddio i gyhoeddi'r Cynllun yn ei ffurf fabwysiedig mor fuan ag sy'n bosib**

## 11 CYFEIRIO'N UWCH YN UNOL Â RHEOL GWEITHDREFN 21

(A) Adroddwyd, er gwybodaeth:-

(i) bod y nifer priodol o aelodau wedi rhoddi rhybudd ysgrifenedig eu bod yn dymuno cyfeirio Cais C08A/0617/15/AM, sef cais amlinellol i adeiladu tŷ unllawr ar lain o dir yn Groeslon, Glynrhonwy, Llanberis. Caernarfon o'r Pwyllgor Cynllunio Canolog a gynhaliwyd at 26 Mawrth 2009 i'r Cyngor llawn

(ii) bod y Pwyllgor Cynllunio Canolog yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth 2009 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais ar y sail y byddai'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol a'r cyngor a gynhwyswyd yn Natganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006, Nodyn Cyngor Technegol 6; polisi CH7 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (drafft fel y'i diwygiwyd) Awst 2008; polisi A1 Cynllun Fframwaith Gwynedd a pholisi 4Ff Cynllun Lleol Arfon Wledig.**

(B) Cyflwynwyd:-

(i) adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ynglŷn â phenderfyniad y Pwyllgor Cynllunio Canolog i wrthod y cais;

(ii) dogfennau a gyflwynwyd i Bwyllgor Ardal Arfon a'r Pwyllgor Cynllunio Canolog yn egluro'r ystyriaethau cynllunio, ynghyd â chofnodion y cyfarfod;

(iii) cyflwyniad gweledol o'r safle a'r ardal o'i amgylch.

(C) Adroddwyd gan y Swyddog Monitro bod gan aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio Canolog a Phwyllgor Ardal Arfon yr hawl i drafod a phleidleisio ar y mater.

(CH) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r cais gan y Pennaeth Adran Rheoleiddio.

(i) Adroddwyd y cyflwynwyd y cais i Bwyllgor Cynllunio Ardal Arfon gydag argymhelliad i'w wrthod ar sail polisi, gan y byddai'r bwriad yn arwain at dŷ newydd yng nghefn gwlad agored heb unrhyw gyfiawnhad amaethyddol. Penderfynodd y Pwyllgor Ardal, yn groes i argymhelliad y swyddogion, i ganiatáu'r cais gydag amodau, ac o ganlyniad, galwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio Canolog. Gwrthodwyd y cais gan y pwyllgor canolog ar y sail y byddai'n groes i bolisïau lleol a chenedlaethol. Yn unol â rheol gweithdrefn 21, cyfeiriwyd y mater i'w ystyried gan y Cyngor llawn.

(ii) Manylwyd ar y cais amlinellol i adeiladu tŷ unllawr ar dir uchel yn edrych dros Llyn Padarn. Eglurwyd bod y safle ymhell y tu allan i ffiniau pentref Llanberis, fel y'u diffinnir yn y cynlluniau datblygu, ac o ganlyniad roedd mewn cefn gwlad agored. Ymhellach roedd y cyfiawnhad a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yn seiliedig ar ddiogelwch yn ymwneud â'i fusnes contractio/llogi offer cyfagos. Eglurodd y Pennaeth nad oedd gan y busnes ganiatâd cynllunio, ac felly, nid oedd awdurdod i'r busnes ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i ymholiad , eglurodd y Pennaeth nad oedd rhybudd gorfodaeth ar y safle, ac mai annoeth fyddai cyflwyno rhybudd gan fod dau gais cynllunio ynglŷn â'r safle yn y broses o gael eu hystyried.

(iii) Eglurwyd mai'r unig gyfiawnhad ar gyfer adeiladu tŷ newydd yng nghefn gwlad agored o safbwynt polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol, fyddai ar sail angen amaethyddol neu goedwigaeth gwirioneddol. Pwysleisiodd nad oedd y cyfiawnhad yma'n bodoli.

(iv) Cyfeiriwyd at gyfres o bolisïau cynllunio lleol a'r cyd-destun polisïau cenedlaethol. Eglurwyd nad oedd y cais yn cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer sicrhau caniatâd.

Roedd y Pwyllgor Cynllunio Canolog, wedi penderfynu gwrthod y cais ar y sail ei fod yn groes i bolisïau. Pwysleisiodd bod y penderfyniad yn un cadarn, ac y byddai gwyrdroi'r penderfyniad a chaniatáu'r datblygiad, yn peryglu hygrededd y Cyngor o safbwynt ei brosesau cynllunio.

(v) Mewn perthynas â chyfiawnhad yr ymgeisydd dros gyflwyno'r cais a'r honiad bod angen y tŷ o safbwynt diogelwch ei fusnes, eglurodd y Pennaeth y derbyniwyd yn ddiweddar cais ôl-weithredol gan yr ymgeisydd ar gyfer newid defnydd y sied amaethyddol sydd ar y safle, i fodurdy masnachol, storio peiriannau yn ogystal â newid defnydd yr iard allanol i gadw peiriannau a defnydd yn gysylltiedig â'r modurdy. Pwysleisiodd bod y cais ôl-weithredol yn tanseilio unrhyw gyfiawnhad am yr angen am y tŷ ar y safle.

(D) Cynigiwyd ac eiliwyd gwrthod y cais yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Cynllunio Canolog ar 26 Mawrth 2009.

(DD) Yn absenoldeb yr aelod lleol, nododd aelod ar ei ran, ei fod yn gefnogol i'r cais ar y sail bod yr ymgeisydd wedi gwario'n sylweddol ar y safle ac wedi gweddnewid man diffaith a gwyllt. Roedd hefyd wedi llwyddo i sefydlu busnes llwyddiannus ar y safle, a chyfeiriodd at bwysigrwydd y busnes i amaethyddiaeth ac i gyflogaeth leol.

Nododd hefyd ei fod o'r farn bod adeilad ar y safle ar un adeg, ond bod yr ymgeisydd yn fodlon newid lleoliad y tŷ er mwyn sicrhau nad oedd yn weladwy. Nododd y Pennaeth y byddai symud lleoliad y tŷ yn golygu cais o'r newydd.

Eglurodd yr aelod ymhellach ei fod yn derbyn bod y safle y tu allan i'r ffin ddatblygu, a'i fod yn groes i bolisi, ond roedd hefyd yn derbyn bod yr ymgeisydd angen lleoli tŷ ar y safle o safbwynt diogelwch ei fusnes, oherwydd iddo ddioddef llawer o fandaliaeth a lladrata o'r safle.

Nododd aelod arall fod cynlluniau a luniwyd ar gyfer datblygu safle Glyn Rhonwy, sy'n ffinio â'r safle, o bosibl yn cynnwys yn cynnwys tai fforddiadwy yn y dyfodol, ac nad oedd cyfiawnhad dros wahaniaethu rhwng y ddau safle. Eglurodd y Pennaeth bod safle Glyn Rhonwy wedi ei adnabod gan y Cyngor fel safle i'w ddatblygu a'i fod, gan hynny, yn disgyn o fewn y polisïau. Fodd bynnag, 'roedd safle'r cais yn glir tu allan i'r polisïau. Hefyd roedd cyfeiriad yn y cynllun at y posibilrwydd o adeiladu tai ar y rhan o'r safle oedd agosaf at Lanberis ei hun, ac nid ar y rhan oedd agosaf at safle'r cais hwn.

Nododd aelod arall bod gwarchod cymunedau a hyrwyddo busnesau lleol yn un o brif werthodd y Cyngor, a bod gwrthod y cais yn groes i'r gwerthoedd hynny. Nododd y Pennaeth ei fod yn cytuno bod angen gwarchod cymunedau a'r economi leol, a bod gan y maes cynllunio rôl allweddol er mwyn hwyluso hyn. Fodd bynnag, pwysleisiodd bod rhaid iddo ddigwydd o fewn y polisïau.

Roedd sawl aelod o'r farn bod tystiolaeth a chyfiawnhad dros ganiatáu'r cais, tra bo eraill yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau tryloywder ac ansawdd wrth wneud penderfyniadau cynllunio a bod hynny i'w sicrhau trwy gydymffurfio â pholisïau lleol a chenedlaethol.

Wrth gloi'r drafodaeth, pwysleisiwyd bod y cais yn groes i bolisïau'r CDU, ac i bolisïau cenedlaethol. Roedd swyddogion proffesiynol a'r Pwyllgor Cynllunio Canolog o'r farn nad oedd tystiolaeth na chyfiawnhad dros fynd yn groes i'r polisïau, ac anogwyd aelodau i wrthod y cais.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol i gefnogi penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio Canolog.

**O blaid: (36)** Y Cynghorydd Stephen Churchman, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith, Siân Gwenllïan, Huw Hughes, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Dai Rees Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, W Penri Jones, Dewi Lewis, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Linda Morgan, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Liz Saville Roberts, Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, J.W.Williams a R H Wyn Williams

**Yn erbyn: (20)** Y Cynghorwyr Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Aeron M Jones, Charles Wyn Jones, Eric Merfyn Jones, J. R. Jones, P.G.Larsen, Dilwyn Lloyd, Dewi Owen, Roy Owen, W Tudor Owen, Peter Read, Dafydd Roberts, Gwilym Euros Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Atal pleidlais (3):** Y Cynghorwyr T G Ellis, Eryl Jones-Williams ac Arwel Pierce

**PENDERFYNWYD cymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio Canolog i wrthod y cais ar y sail y byddai'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol a'r cyngor a gynhwyswyd yn Natganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006, Nodyn Cyngor Technegol 6; polisi CH7 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (drafft fel y'i diwygiwyd) Awst 2008; polisi A1 Cynllun Fframwaith Gwynedd a pholisi 4Ff Cynllun Lleol Arfon Wledig.**

## 12 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Owain Williams o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Galwn ar Gyngor Gwynedd i gysylltu'n ddi-oed gyda'r Swyddfa Gartref, i ddatgan ein hanfodlonrwydd a'n siomedigaeth lwyr at y penderfyniad i wrthod i ddwy ferch o Batagonia ymweld â Chymru. Yn ychwanegol, 'rydym yn datgan ein condemniad o'r modd y cafodd y merched eu trin gan yr Awdurdodau Mewnfudo ac eraill yn y maes awyr, cyn eu hanfon yn ôl i Batagonia"**

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r cynnig. Cyfeiriwyd at hanes sefydlu'r Wladfa, a phwysleisiwyd bod y cysylltiad clos rhwng y ddwy wlad yn parhau hyd heddiw.

Yn ychwanegol, mynegwyd pryder gan yr aelod y bydd trigolion eraill o Batagonia yn peidio ymweld â Chymru yn y dyfodol - rhag iddynt gael eu trin yn yr un modd.

Nododd sawl aelod eu bod hwythau wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gartref i fynegi eu hanfodlonrwydd ac anogwyd aelodau eraill i weithredu yn yr un modd.

Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod trefn yn ei le i sicrhau rhwydd hynt i ymwelwyr o Batagonia ymweld â Chymru, a nodwyd bod gan y Cynulliad ran i chwarae yn hyn o beth.

Diolchwyd i'r aelod am ddod â'r mater gerbron, ategwyd pwysigrwydd y cynnig, a gyda chytundeb y Cynghorydd Owain Williams, pleidleisiwyd ar gynnig diwygiedig oedd yn hefyd yn gofyn i Lywodraeth San Steffan ymddiheuro i'r merched a thalu'r costau iddynt i ddychwelyd i Gymru.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r rhybudd o gynnig canlynol:-**

**(i) "Bod Cyngor Gwynedd yn cysylltu'n ddi-oed gyda'r Swyddfa Gartref, i ddatgan ei anfodlonrwydd a siomedigaeth lwyr at y penderfyniad i wrthod i ddwy ferch o Batagonia ymweld â Chymru. Yn ychwanegol, ei fod yn datgan ei gondemniad o'r modd y cafodd y merched eu trin gan yr Awdurdodau Mewnfudo ac eraill yn y maes awyr, cyn eu hanfon yn ôl i Batagonia.**

**Hefyd bod y Cyngor yn gofyn i Lywodraeth San Steffan i ymddiheuro i'r ddwy ferch am y modd y cawsant eu trin a thalu'r costau iddynt ddychwelyd i Gymru"**

**(ii) Awdurdodi'r Pennaeth Democratiaeth a Cyfreithiol i weithredu ar y cynnig**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 p.m. a daeth i ben am 3.45 p.m**